# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 1 E+W

GWASANAETHAU CYMORTH IECHYD MEDDWL SYLFAENOL LLEOL

*Ystyr "partneriaid iechyd meddwl lleol"*

### 1 Ystyr "partneriaid iechyd meddwl lleol" E+W

At ddibenion y Mesur hwn, y partneriaid iechyd meddwl lleol ar gyfer ardal awdurdod lleol yw–

(a) y Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ar gyfer ardal sy'n cynnwys ardal yr awdurdod lleol; a

(b) yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 55(3)**

**I2** A. 1 mewn grym ar 8.5.2012 gan O.S. 2011/3046, **ergl. 4(a)** (ynghyd ag ergl. 5)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Croes Bennawd: Ystyr "partneriaid iechyd meddwl lleol".